



Gwneud penderfyniadau a chaniatâd:

Cynorthwyo dewisiadau
cleifion amiechyd a gofal

Arweiniad drafft ar gyfer ymgynghori

Am yr arweiniad hwn

Mae'n harweiniad craidd i feddygon, ***Arfer meddygol da***¹, yn nodi bod yn rhaid i feddygon deimlo'n fodlon eu bod wedi sicrhau caniatâd claf, neu awdurdod dilys arall, cyn cynnal unrhyw archwiliad neu ymchwiliad, darparu triniaeth neu gynnwys cleifion neu wirfoddolwyr mewn gwaith addysgu neu waith ymchwil.

Diben yr arweiniad hwn yw helpu meddygon i fodloni'r safon honno. Mae'n canolbwyntio ar ddyletswyddau cyfreithiol a moesegol meddygon i gynnwys cleifion gymaint ag y bo modd wrth wneud penderfyniadau am eu hiechyd a'u gofal eu hunain.

Mae'r arweiniad ar gyfer meddygon, ac mae'n nodi'r safonau arfer da y disgwyliwn iddynt eu dilyn. Ceir adnoddau er mwyn helpu meddygon i gyflawni'r arweiniad hwn, ac mae'r rhain ar gael ar ein gwefan, sef www.gmc-uk.org/ethical-guidance/learning-materials.

Yn ogystal, bwriedir i'r arweiniad hwn fod o gymorth i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill ac i gleifion.

Gweithredu'r egwyddorion

Arweiniad am arfer da yw hwn. Mae'n pennu fframwaith a fydd yn eich helpu i weithio mewn ffordd foesegol ac yn unol â'r gyfraith. Disgwyliwn i chi ddilyn yr arweiniad, ond nid set o reolau ydyw, a bydd angen i chi ddefnyddio'ch barn ynghylch sut i weithredu'r egwyddorion yn y sefyllfaoedd penodol y byddwch yn eu hwynebu mewn gwirionedd.

Trwy ddefnyddio'r termau 'rhaid i chi' a 'dylech chi', rydym yn dynodi faint o hyblygrwydd sydd gennych chi wrth ddilyn yr arweiniad.

- Defnyddir 'rhaid i chi' wrth drafod egwyddor neu ddyletswydd lywodraethol. Mae hyn yn golygu ei fod yn ofyniad cyfreithiol neu'n safon sylfaenol ymddygiad moesegol sy'n berthnasol i bob meddyg.
- Defnyddir 'dylech chi' mewn dwy ffordd:
 - pan fyddwn yn esbonio sut i fodloni dyletswydd neu egwyddor lywodraethol. Mae'n cydnabod yr angen am hyblygrwydd o ran y ffordd y gall meddygon fodloni'r ddyletswydd/egwyddor mewn sefyllfaoedd go iawn.
 - pan fyddwn yn derbyn na fydd y ddyletswydd neu'r egwyddor yn berthnasol ym mhob sefyllfa neu amgylchiad, neu pan fydd ffactorau y tu hwnt i reolaeth meddyg sy'n effeithio ar y cwestiwn ynghylch a all neu sut y gall meddyg ddilyn yr arweiniad.

Mae defnyddio barn yn golygu y gallai gwahanol feddygon ddod i wahanol gasgliadau pan fyddant yn wynebu'r un sefyllfa. Dylech gadw cofnodion sy'n eich galluogi i esbonio pam y dewisoch chi symud ymlaen yn y ffordd y gwnaethoch. Rhaid i chi fod yn barod i esbonio

¹ www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors/good-medical-practice

a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd.

Os nad ydych yn credu y gallwch chi ddilyn yr arweiniad hwn oherwydd y systemau, y prosesau neu'r amgylchedd yr ydych yn gweithio ynddynt, a bod risg y gallai hyn beryglu diogelwch neu urddas cleifion, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad yn [**Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch \(2012\).**](#)²

Os nad ydych chi wedi cael caniatâd neu awdurdod dilys arall i gyflawni ymyriad penodol, ni ddylech fwrw ymlaen ag ef.

Y berthynas rhwng yr arweiniad hwn a chamau a gymrir yn erbyn cofrestriad meddyg

Bydd methiant difrifol neu barhaus i ddilyn yr arweiniad hwn, sy'n peri risg i ddiogelwch claf neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon, yn peryglu'ch cofrestriad.

Wrth ddelio â phryder, nid ein rôl ni yw cosbi neu ddisgyblu meddygon am ddigwyddiadau'r gorffennol. Diben unrhyw gamau y byddwn yn eu cymryd yw diogelu'r cyhoedd trwy helpu i sicrhau bod meddygon ar ein cofrestr yn darparu gofal diogel a chynnal hyder y cyhoedd mewn meddygon.

Ni cheir cyswllt awtomatig rhwng methu dilyn yr arweiniad hwn a chymryd camau yn erbyn eich cofrestriad. Mae hyn oherwydd bod yr arweiniad yn nodi egwyddorion arfer da, nid trothwyon er mwyn cymryd camau i ddiogelu'r cyhoedd.

Os byddwn yn cael cwyn am feddyg, byddwn yn ei hystyried ar sail ffeithiau penodol yr achos, gan ystyried y ffactorau sy'n berthnasol i'r amgylchedd y mae'r meddyg yn gweithio ynddynt, a chan fanteisio ar gyngor tystion arbenigol yn ôl yr angen. Byddwn yn defnyddio ein harweiniad fel meincnod er mwyn asesu a yw gweithredoedd neu benderfyniadau meddyg wedi gostwng yn is na'r safon a ddisgwyliwn mewn ffordd ddifrifol neu barhaus.

Cwmpas yr arweiniad hwn

Mae'r egwyddorion yn yr arweiniad hwn yn berthnasol i'r holl benderfyniadau iechyd a gofal y byddwch chi a'ch claf yn eu gwneud gyda'ch gilydd am iechyd meddyliol a chorfforol. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau am driniaethau, gweithdrefnau, ymchwiliadau, archwiliadau a chyfeiriadau, ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r rhain yn unig, ac mae'n berthnasol beth bynnag fo'r dull cyfathrebu, gan gynnwys ymgynghoriadau o bell.

Wrth ystyried sut i weithredu'r egwyddorion mewn sefyllfaoedd go iawn, bydd angen i chi ystyried y sefyllfaoedd clinigol penodol y byddwch yn eu hwynebu. Rydym yn paratoi deunyddiau atodol hefyd er mwyn dangos sut y mae'r egwyddorion yn berthnasol mewn gwahanol amgylchiadau.

Nid yw'r arweiniad hwn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch diogelu neu ddatgelu gwybodaeth am gleifion (gweler [**Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion**](#)) neu wneud penderfyniadau ynghylch cynnwys rhywun mewn gwaith ymchwil (gweler [**Arfer da mewn ymchwil a Chaniatâd i ymchwilio**](#)). Er bod yr egwyddorion yn berthnasol i'r penderfyniadau a wneir gyda phlant a phobl ifanc, rhoddir arweiniad manwl a phenodol yn [**0-18 oed: arweiniad i bob meddyg**](#).

² www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors/raising-and-acting-on-concerns.

Fframwaith moesegol a chyfreithiol

Mae caniatâd yn rhan annatod o'r rhyngweithio clinigol rhwng meddygon a chleifion. Mae gan gleifion yr hawl i wneud dewisiadau am eu bywyd eu hunain. Mae gan feddygon gyfrifoldeb moesegol a chyfreithiol i gynnwys cleifion gymaint ag y bo modd wrth wneud penderfyniadau am eu hiechyd a'u gofal. Dylai hon fod yn bartneriaeth sy'n seiliedig ar weithredu agored, gonestrwydd, ymddiriedaeth a chyfathrebu da.

Mae yr un mor bwysig i feddygon ddeall yr hyn sy'n bwysig i gleifion – gan roi'r cyfle iddynt rannu eu hanghenion, eu dymuniadau a'u gwerthoedd, a gwranddo ar eu blaenoriaethau a'u pryderon – ag y mae i'r meddyg rannu gwybodaeth am niwed a manteision y gwahanol ddewisiadau. Mae effeithiolrwydd yr olaf yn dibynnu ar y cyntaf yn sylweddol.

Gweithredu o fewn y gyfraith

Rhaid i feddygon weithredu o fewn y gyfraith ac arddel safonau proffesiynol yn eu gwaith. Er nad ydym yn disgwyl i feddygon fod yn arbenigwyr cyfreithiol, dylech fod yn gyfarwydd â'r cyfreithiau sy'n berthnasol i'ch gwaith ac yn gwybod pryd i gael cyngor cyfreithiol arbenigol.

Mae'r cyfreithiau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau gyda chleifion yn amrywio ar draws y DU. Nid cyngor cyfreithiol yw'r arweiniad hwn ond mae'n ystyried y gyfraith bresennol ar draws y DU ac mae'n cyd-fynd â hi, ac mae'n cynorthwyo meddygon i weithredu o fewn y gyfraith.

Mae'r arweiniad yn osgoi defnyddio terminoleg gyfreithiol sy'n benodol i un gwlad. Yn hytrach, byddwn yn defnyddio term ehangach sy'n cyfleu'r un ystyr. Mae'n bwysig nodi bod yr arweiniad hwn yn defnyddio'r term 'budd cyffredinol' er mwyn disgrifio'r sail foesegol er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch triniaeth a gofal i gleifion sy'n oedolion a heb alluedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae hyn yn cynnwys pwyso a mesur y risgiau, y manteision a'r beichiau i'r claf unigol. Mae'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol i ystyried a yw triniaeth 'o fudd' i glaf (yr Alban), neu a yw er 'budd pennaf' y claf (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon), ac i weithredu'r egwyddorion cyfreithiol eraill a ddefnyddir er mwyn pennu galluedd ar draws y DU.

Yn atodiad cyfreithiol yr arweiniad hwn, rydym yn rhoi crynodeb o rai o'r prif elfennau cyfraith berthnasol, gan gynnwys gofynion cyfraith gyffredin yn ogystal â deddfwriaeth galluedd meddyliol ac iechyd meddyliol ar draws y DU. Ym mhrif gorff yr arweiniad, rydym yn rhoi cyngor ynghylch sut i weithredu egwyddorion moesegol a chyfreithiol mewn sefyllfaoedd go iawn. Dim ond pan fydd angen gwneud hynny y byddwn yn cyfeirio at gyfraith un awdurdodaeth benodol.

Mae'r troednodion, y cyfeiriadau a'r atodiad cyfreithiol yn rhoi gwybodaeth am y cefndir. Mae cyfeiriadau at gyhoeddiadau gan sefydliadau eraill yn enghreifftiau o'r adnoddau cenedlaethol sydd ar gael.

Os nad ydych yn siŵr sut y gallai'r gyfraith fod yn berthnasol mewn sefyllfa benodol, dylech gael cyngor gan gydweithwyr uwch neu eraill o fewn eich sefydliad, dylech ymgynghori â'ch sefydliad amddiffyn meddygol neu gymdeithas broffesiynol, neu dylech gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

Prif egwyddorion yr arweiniad hwn

Cynorthwyo cleifion i wneud penderfyniadau. Helpu cleifion i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu hiechyd a'u gofal eu hunain. Rhoi'r wybodaeth iddynt sy'n berthnasol iddynt, mewn ffordd y maent yn ei deall. Ystyriwch a fyddai modd i chi wneud unrhyw beth er mwyn ei gwneud yn haws iddynt ystyried y dewisiadau a gwneud penderfyniad.

Gwrando ar eich claf a'r rhai sy'n agos iddynt. Mae'r wybodaeth y bydd eich claf a'r rhai sy'n agos iddynt yn ei rhannu gyda chi yr un mor bwysig â'r hyn y byddwch chi'n ei ddweud wrthyn nhw. Neilltuwch amser i ofyn cwestiynau a deall yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch claf. Dylech drin eich claf fel unigolyn a rhoi'r wybodaeth iddynt y mae ei hangen arnynt er mwyn gwneud penderfyniad. Meddyliwch am yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r effaith y gallai gwahanol ddewisiadau ei chael. Dylech deilwra'r wybodaeth y byddwch yn ei rhannu gyda nhw er mwyn adlewyrchu eu pryderon, eu dymuniadau a'u gwerthoedd penodol nhw.

Deall y gwahanol rolau yr ydych chi a'ch claf yn eu cyflawni wrth wneud penderfyniadau. Defnyddiwch eich gwybodaeth a'ch harbenigedd er mwyn cynghori'ch cleifion, ond ni ddylech roi pwysau arnynt i wneud penderfyniad penodol.

Parchu penderfyniadau eich claf. Pan fo'ch claf yn gallu gwneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal, dylech barchu a gwerthfawrogi eu hawl i wneud hyn trwy ymgynghori â phobl arall o'u dewis, hyd yn oed os byddwch yn anghytuno â'u penderfyniad neu os na fyddwch yn ei ddeall. Ond os bydd claf yn gofyn am driniaeth na fyddai o fudd cyffredinol iddynt yn eich barn chi, nid oes yn rhaid i chi ei darparu.

Cydnabod pwysigrwydd y broses o wneud penderfyniadau. Er ei bod yn bwysig cofnodi trafodaethau a phenderfyniadau mewn ffordd fanwl, mae'r ffordd y mae'r claf yn rhoi eu caniatâd yn llai pwysig nag ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yr ydych chi a'ch claf wedi'i dilyn.

Tybio, asesu, manteisio i'r eithaf ar ac adolygu galluedd. Dylech gychwyn o'r safbwynt y gall pob claf sy'n oedolyn wneud eu penderfyniadau eu hunain, a chymryd yr holl gamau rhesymol er mwyn helpu cleifion i wneud hyn. Dylech gydnabod y gall galluedd amrywio a'i fod yn benodol i bob dewis neu benderfyniad. Dylech asesu, manteisio i'r eithaf ar ac adolygu galluedd eich claf i wneud pob penderfyniad ar wahân.

Cynnwys eich claf gymaint ag y bo modd mewn trafodaethau a phenderfyniadau am eu gofal, hyd yn oed pan na fyddant yn gallu gwneud penderfyniad. Dylech roi pwys i'w gwerthoedd, eu dymuniadau a'u dewisiadau, er na fydd hi wastad yn briodol gweithredu fel y maent yn gofyn i chi ei wneud.

Cynnwys eraill wrth wneud penderfyniadau pan na fydd eich claf yn gallu gwneud hynny. Gweithiwch gyda'r rhai sy'n agos i'r claf, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, neu bobl y mae ganddynt rôl cyfreithiol wrth eirioli dros neu wneud penderfyniadau ar ran y claf, er mwyn nodi a dewis rhwng y dewisiadau y gallent gynnig budd cyffredinol i'r claf.

Sut y caiff penderfyniadau eu gwneud

Fframweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau

- 1 Dylai meddygon weithio mewn partneriaeth â chleifion a'u cynorthwyo i gyflawni rôl mor weithredol ag y bo modd wrth wneud penderfyniadau. Mae Rhan Un yr arweiniad hwn yn nodi sut y dylech chi wneud hyn.
 - a Pan fydd claf yn gallu gwneud penderfyniad a rhoi neu wrthod rhoi eu caniatâd. Ym mwyafrif yr achosion, bydd cleifion yn gwneud penderfyniadau ar ôl ystyried y cyngor a'r wybodaeth a gawsant. Byddant yn dewis rhwng y gwahanol ddewisiadau ac os byddant yn penderfynu bwrw ymlaen gydag ymyriad, byddant yn mynegi eu caniatâd i'r meddyg neu i aelod o'r tîm gofal.
 - b Pan fydd claf heb alluedd i roi neu wrthod rhoi eu caniatâd. Weithiau, efallai na fydd claf yn gallu rhoi neu wrthod rhoi eu caniatâd mewn ffordd gyfreithlon, oherwydd eu bod heb alluedd i wneud hynny. Yn yr amgylchiadau hyn, mae angen penderfynu ar yr hyn a fydd yn cynnig budd cyffredinol i'r claf a beth yw'r ffordd fwyaf briodol o symud ymlaen. Bydd y penderfyniadau hyn yn digwydd o fewn fframwaith cyfreithiol, ac mae'r fframweithiau hyn yn gwahaniaethu ar draws pedair gwlad y DU. Fel arfer, byddwch yn gwneud penderfyniadau trwy ymgynghori â'r tîm gofal iechyd ehangach, y rhai sy'n agos i'r claf, ac unrhyw un sy'n meddu ar yr awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran y claf. Os ceir anghytundebau na ellir eu datrys, efallai y bydd angen i benderfyniadau gael eu gwneud gan y llysoedd yn y pen draw.
 - c Pan fydd gennych chi awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniad er mwyn diogelu'r claf neu eraill. Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig a phenodol iawn, megis pan fyddwch yn asesu neu'n trin claf dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl benodol, efallai y bydd yn rhaid i chi wneud penderfyniad i ddiogelu'r claf neu'r cyhoedd – hyd yn oed pan fo'r claf yn meddu ar y galluedd cyfreithiol i wneud y penderfyniad. Caiff y penderfyniadau hyn eu llywodraethu gan y gyfraith hefyd, sy'n gwahaniaethu ar draws y DU.

Cyfrifoldeb a dirprwyo

3 Os mai chi yw'r meddyg a fydd yn cyflawni'r ymyriad arfaethedig, rhaid i chi sicrhau bod y penderfyniad ynghylch cyflawni'r ymyriad neu beidio wedi cael ei wneud mewn ffordd briodol, gan ddilyn y fframwaith perthnasol. Rhaid i chi drafod y dewisiadau gyda'r claf a gydag unrhyw bobl berthnasol eraill, neu ddirprwyo mewn ffordd briodol.

4 Rydym yn cydnabod bod trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch iechyd a gofal yn digwydd ar wahanol lefelau, gan gynnwys ar lefel tîm. Os nad yw hi'n ymarferol i chi gael y trafodaethau hyn ac os byddwch o'r farn ei bod yn briodol dan yr amgylchiadau, yna oni bai eich bod yn cyflawni ymyriad cosmetig, gallwch ddirprwyo'r cyfrifoldeb i rywun arall.⁴ Pan fyddwn yn sôn am ddirprwyo, rydym yn golygu trosglwyddo'r cyfrifoldeb i gydweithiwr – er enghraifft i gydweithiwr arall yn eich tîm neu mewn maes arbenigol arall, neu i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

- 5** Os byddwch yn dirprwyo, rhaid i chi sicrhau bod yr unigolyn y byddwch yn dirprwyo iddynt:
- a** wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar gymhwyster addas
 - b** yn meddu ar wybodaeth ddigonol o'r ymyriad arfaethedig ac yn deall y risgiau dan sylw a'r manteision posibl
 - c** yn meddu ar wybodaeth ddigonol am anghenion y claf
 - d** yn deall ac yn cytuno y byddant yn dod yn ôl atoch chi am gyngor neu wybodaeth bellach yn ôl yr angen.

- 6** Wrth benderfynu a yw hi'n briodol dirprwyo, dylech ystyried:
- a** natur yr ymyriad, gan gynnwys ei ddifrifoldeb a'i gymhlethdod
 - b** lefel yr ansicrwydd ynghylch y canlyniad
 - c** eich perthynas bresennol gyda'r claf ac unrhyw berthynas rhwng eich claf a'r unigolyn yr ydych yn ystyried dirprwyo iddynt
 - d** unrhyw bryderon yr ydych yn rhagweld y gallai fod gan y claf.

7 Os byddwch yn dirprwyo, rhaid i chi deimlo'n fodlon bod y claf ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r penderfyniad wedi cael digon o amser a gwybodaeth i wneud penderfyniad neu, pan na fyddant yn gallu gwneud penderfyniad, i fynegi eu safbwyntiau. Pan fo'r claf yn gallu gwneud penderfyniad, rhaid i chi sicrhau eu bod wedi penderfynu bwrw ymlaen a'u bod wedi rhoi eu caniatâd cyn i chi ddechrau unrhyw ymyriad. Os bydd yr unigolyn y byddwch wedi dirprwyo iddynt yn mynegi pryderon am eu cymhwysedd i gyflawni eich cais, dylech gynnig cymorth neu wneud trefniadau amgen.

8 Os bydd cydweithiwr yn gofyn i chi gael trafodaethau a cheisio caniatâd claf ar eu rhan, rhaid i chi sicrhau eich bod yn meddu ar wybodaeth ac arbenigedd ddigonol er mwyn gwneud hyn. Os na fyddwch, dylech esbonio hyn i'r meddyg arall a cheisio cymorth. Os byddwch yn teimlo eich bod yn cael eich rhoi mewn sefyllfa lle nad ydych yn cael cymorth digonol, dylech fynegi pryderon, gan ddilyn yr arweiniad yn *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch*.

⁴ Os ydych yn cyflawni ymyriad cosmetig, rhaid i chi ddilyn y cyngor yn *Arweiniad i feddygon sy'n cynnig ymyriadau cosmetig*.

Rhan 1:

Cynorthwyo cleifion wrth iddynt wneud penderfyniadau

- 9 Wrth wneud penderfyniadau am iechyd a gofal, mae'n bwysig rhoi pwys ar ddymuniadau'r claf a'u gwybodaeth am eu cyflwr, yn ogystal â'ch arbenigedd a'ch gwybodaeth glinigol chi.
- 10 Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol a chymesur i gynorthwyo cleifion i wneud eu penderfyniadau eu hunain pryd bynnag y bo modd. Pan na fydd hyn yn bosibl, naill ai oherwydd eu bod heb alluedd i wneud y penderfyniad (gweler paragraffau 76-101) neu oherwydd bod angen i chi wneud penderfyniad am eu triniaeth a'u gofal dan ddeddfwriaeth benodol er mwyn diogelu'r claf neu'r cyhoedd (gweler paragraffau 104-107), rhaid i chi gynorthwyo'u cyswllt gyda'r broses o wneud penderfyniadau gymaint ag y gallwch. Mae'r adran hon yn esbonio sut y dylech wneud hynny.

4 Nodyn i batholegwyr a radiolegwyr: efallai y bydd adegau pan mai'r unig ffordd o ddatrys ansicrwydd ynghylch diagnosis yw trwy gynnal ymchwiliadau nas archebwyd yn benodol fel rhan o'r cais gwreiddiol am brofion. Os bydd hi'n ymddangos bod yr ymchwiliadau y tu hwnt i gwmpas caniatâd y claf, neu os ceir sensitifrwydd penodol ynghylch y cyflwr yr ydych yn dymuno profi amdano, rhaid i chi gysylltu â'r meddyg sy'n trin er mwyn pennu a oes angen cynnal trafodaeth bellach gyda'r claf cyn symud ymlaen.

5 Mewn amgylchiadau arbennig iawn, efallai y byddwch yn teimlo y byddai rhannu gwybodaeth gyda chlaf yn peri niwed difrifol iddynt ac mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd yn briodol cadw'r wybodaeth hon yn ôl. Gweler yr atodiad cyfreithiol am gyfraith achosion perthnasol. [Caiff yr atodiad cyfreithiol ei ddrafftio ar ôl cynnal yr ymgynghoriad. Gweler Montgomery vs Lanarkshire [2015].

Meddygon a chleifion yn rhannu gwybodaeth

- 11 Er mwyn i berthynas rhwng meddyg a chlaf fod yn effeithiol, dylai fod yn bartneriaeth sy'n seiliedig ar weithredu agored, gonestrwydd, ymddiriedaeth a chyfathrebu da. Rhaid i chi wrando ar bryderon cleifion, eu holi am eu safbwyntiau a'u gwerthoedd, a'u parchu, a'u hannog i ofyn cwestiynau. Ni ddylech ffurfio tybiaethau ynghylch y wybodaeth y maent yn dymuno'i chael efallai neu'r ffactorau y gallent fod yn arwyddocaol yn eu barn nhw efallai.
- 12 Rhaid i chi roi i gleifion y wybodaeth y maent yn dymuno'i chael neu y mae angen iddynt ei chael er mwyn gwneud penderfyniad mewn ffordd y gallant ei deall. Dylech ystyried a oes angen mwy o amser ar glaf gyda chi neu gyda'r tîm gofal iechyd, neu a fyddai modd iddynt gael budd o gael gwybodaeth cyn ymgynghoriad, er mwyn sicrhau y gellir bodloni eu hanghenion.
- 13 Dylech deilwra eich dull ar gyfer trafodaethau gyda chleifion yn ôl:
 - a eu hanghenion, eu ddymuniadau, eu gwerthoedd a'u blaenoriaethau
 - b lefel eu gwybodaeth ynghylch eu cyflwr, y prognosis a'r canlyniadau posibl, a'u dealltwriaeth o hyn
 - c natur, cymhlethdod, brys a lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r dewisiadau arfaethedig.
 - d Pan fydd y claf yn dymuno i unigolyn arall, megis perthynas, partner, ffrind, gofalwr neu eiriolwr, gymryd rhan mewn trafodaethau neu eu helpu i wneud penderfyniadau, dylech ganiatáu eu ddymuniadau pan fo modd. Os na allant wneud penderfyniad eu

hunain, dylech roi'r wybodaeth y maent yn dymuno'i chael neu y mae angen iddynt ei chael er mwyn mynegi eu safbwyntiau am y penderfyniad.

- 14** Rhaid i chi roi gwybodaeth gytbwys i gleifion am eu dewisiadau, gan gynnwys y dewis o wneud dim byd. Os byddwch yn argymhell ffordd o weithredu, dylech esbonio'ch rhesymau dros wneud hyn. Dylech fod yn ymwybodol o'r ffordd y gallai'ch dymuniadau neu'ch dewisiadau chi ddylanwadu ar y cyngor y byddwch yn ei roi, ac ni ddylech roi pwysau ar glaf i dderbyn eich cyngor.
- 15** Rhaid i chi roi esboniad clir ynghylch cwmpas unrhyw benderfyniadau i'w gwneud. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol:
- a** os caiff yr ymyriad ei ddarparu fesul cam, gyda'r posibilrwydd y bydd angen gwneud newidiadau neu addasiadau efallai os bydd gwahanol feddygon neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn darparu rhannau penodol o ymchwiliad neu driniaeth, megis anesthesia a llawdriniaeth
 - b** os bydd hyn yn cynnwys nifer o wahanol ymyriadau
 - c** os mai'r unig ffordd o ddatrys ansicrwydd am y diagnosis neu'r dewisiadau yw pan fydd yr ymyriad wedi cychwyn efallai, pan na fydd y claf yn gallu gwneud penderfyniadau efallai.⁴

Mewn achosion o'r fath, dylech drafod a chytuno gyda chleifion sut y caiff penderfyniadau eu gwneud yn nes ymlaen.

- 16** Rhaid i chi gadarnhau a yw cleifion wedi deall y wybodaeth a roddwyd iddynt, ac a hoffent gael rhagor o wybodaeth cyn iddynt wneud penderfyniad.
- 17** Ni ddylech gadw gwybodaeth yn ôl y mae

angen i'r claf ei chael er mwyn gwneud penderfyniad am y dewisiadau sydd ar gael am resymau eraill, gan gynnwys pan fydd perthynas, partner, ffrind neu ofalwr yn gofyn i chi wneud hynny. Ond dylech ystyried yn ofalus yr amser a'r ffordd y byddwch yn rhannu gwybodaeth.⁵

- 18** Os na fyddwch yn rhannu'r holl wybodaeth ar yr un pryd, rhaid i chi gofnodi'ch rheswm dros wneud hynny. Mae'n rhaid i chi fod yn barod i esbonio a chyfiawnhau eich penderfyniad. Dylech ystyried pryd i rannu'r wybodaeth fel bod modd ei defnyddio i wneud penderfyniad.

Cynyddu gallu eich claf i wneud penderfyniad gymaint ag y bo modd

- 19** Er mwyn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, rhaid bod cleifion yn gallu deall a chofio'r wybodaeth berthnasol, a'i defnyddio er mwyn gwneud penderfyniad. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt gael gwybodaeth fanwl a chlir ynghylch risgiau a manteision unrhyw ffordd o weithredu arfaethedig. Mae angen cyflwyno hon mewn ffordd y gallant ei deall ac mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt yn eu hamgylchiadau unigol, fel y gallant ei defnyddio i ystyried y dewisiadau a gwneud penderfyniad.
- 20** Er mwyn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, rhaid bod cleifion yn gallu deall a chofio'r wybodaeth berthnasol, a'i defnyddio er mwyn gwneud penderfyniad. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt gael gwybodaeth fanwl a chlir ynghylch risgiau a manteision unrhyw ffordd o weithredu arfaethedig. Mae angen cyflwyno hon mewn ffordd y gallant ei deall ac mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt

yn eu hamgylchiadau unigol, fel y gallant ei defnyddio i ystyried y dewisiadau a gwneud penderfyniad.

21 Efallai y bydd rhai cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau syml, ond efallai y byddant yn cael anhawster os yw'r penderfyniad yn gymhleth neu os yw'n cynnwys sawl dewis. Efallai y bydd cleifion eraill yn gallu gwneud penderfyniadau ar adegau penodol, ond nid ar adegau eraill, am resymau a allai gynnwys:

- a** natur a difrifoldeb eu cyflwr
- b** amrywiadau yn eu cyflyrau
- c** anhawster, cymhlethdod, difrifoldeb neu natur frys y penderfyniad
- d** a yw'r ffurf neu'r dull cyfathrebu yn bodloni eu hanghenion
- e** amser y drafodaeth neu'r man lle y cynhelir y drafodaeth
- f** eich sgiliau cyfathrebu a'r ffordd yr ydych yn rhyngweithio gyda'r claf
- g** a ydynt mewn unrhyw boen neu'n cael eu heffeithio gan feddyginiaeth
- h** yr amser y byddwch yn ei roi iddynt i ofyn cwestiynau neu ystyried y wybodaeth
- i** y cymorth sydd ar gael iddynt.

22 Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i gynllunio am newidiadau y gellir eu rhagweld yng ngalluedd claf i wneud penderfyniad, ac i helpu cleifion i wneud penderfyniadau ar adeg pan fyddant yn gallu gwneud hynny.

23 Wrth drafod penderfyniad, dylech:

- a** archwilio a oes angen i'r claf gael rhagor o gymorth er mwyn iddynt ddeall, cofio a gwerthuso gwybodaeth neu er mwyn mynegi eu dymuniadau. Er enghraifft, efallai y bydd o gymorth i gleifion ddod â rhywun gyda nhw i ymgynghoriadau, neu efallai y bydd angen iddynt gael gwybodaeth ysgrifenedig neu fersiwn

sain ohoni. Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, dylech wneud trefniadau i roi'r cymorth y maent ei angen iddynt

- b** ystyried dulliau unigol cleifion o wneud penderfyniadau, er enghraifft trwy roi'r cyfle iddynt drafod y dewisiadau gyda phobl o'u dewis
- c** os byddwch yn cynorthwyo eich trafodaethau gyda chleifion trwy ddefnyddio deunydd ysgrifenedig, neu gymhorthion gweledol neu gymhorthion eraill, sicrhewch bod y deunydd yn fanwl, ei fod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf a'i fod yn berthnasol i'r claf unigol
- d** pryd bynnag y bo modd, dylech rannu gwybodaeth mewn man ac ar amser y mae'r claf yn fwyaf tebygol o'i deall a'i chofio yn eich barn chi
- e** rhoi gwybodaeth y gallai beri gofid i'r claf mewn ffordd ystyriol, gan ganiatáu amser priodol iddynt ystyried y wybodaeth cyn gofyn iddynt wneud penderfyniad. Defnyddiwch eich gwybodaeth am eich claf a'r hyn sy'n bwysig iddynt er mwyn helpu i ragweld yr hyn a allai fod yn peri gofid iddynt a'r hyn y gallwch ei wneud i leihau eu gofid gymaint ag y bo modd
- f** pan fo hynny'n briodol, dylech gynnwys aelodau eraill y tîm gofal iechyd mewn trafodaethau gyda'r claf
- g** rhoi amser i'r claf fyfyrto, cyn ac ar ôl iddynt wneud penderfyniad, yn enwedig os yw'r wybodaeth yn gymhleth neu os yw'r hyn yr ydych yn ei gynnig yn cynnwys risgiau sylweddol
- h** sicrhau bod y claf yn gwybod bod terfyn amser er mwyn iddynt wneud eu penderfyniad, a phwy y gallant gysylltu â nhw yn y tîm gofal iechyd os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon.

24 Os yw hi'n debygol y bydd claf yn cael

anhawster cofio gwybodaeth, dylech gynnig cofnod o'ch trafodaethau iddynt, gan nodi manylion y penderfyniadau a wnaethpwyd a pham. Er enghraifft, gallech roi cofnod ysgrifenedig iddynt neu gallech awgrymu bod y claf yn creu recordiad sain o'r drafodaeth.

Asesu ac esbonio manteision a niweidiau

- 25** Er mwyn cael trafodaethau effeithiol gyda chleifion, rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r manteision posibl a'r risgiau niwed y gallent ddigwydd yn sgil y dewisiadau a gynigir. Mae hyn yn cynnwys y canlyniad posibl o beidio gwneud unrhyw beth.
- 26** Os bydd y ffordd o weithredu arfaethedig yn cynnwys risg niwed hysbys, y byddai'r claf yn ei ystyried yn ddifrifol yn eu hamgylchiadau nhw yn eich barn chi, rhaid i chi ddweud wrth y claf, hyd yn oed os ydych o'r farn ei fod yn annhebygol iawn o ddigwydd. Yn ogystal, dylech ddweud wrth gleifion am sgil-ffeithiau neu gymhlethdodau llai difrifol os byddant yn digwydd yn aml, neu os ydych o'r farn y byddai ganddynt arwyddocâd penodol i'r claf, gan esbonio'r hyn y dylai'r claf ei wneud os bydd yn profi unrhyw rai ohonynt.
- 27** Rhaid i chi ddefnyddio iaith glir a chyson wrth drafod risgiau niwed a manteision posibl gyda chleifion, a dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith y gallai cleifion ddeall gwybodaeth am risgiau mewn ffordd wahanol i chi. Os byddant yn helpu'r claf i ddeall, dylech ddefnyddio gwybodaeth ysgrifenedig syml a manwl neu gymhorthion gweledol neu gymhorthion eraill er mwyn esbonio risg. Er enghraifft, wrth esbonio tebygolrwydd canlyniad penodol, efallai y bydd o gymorth i chi ddefnyddio ffeithluniau neu

ddangos tebygolrwydd gan ddefnyddio poblogaethau y mae ganddynt ystyr i'r claf.

- 28** Dylech sicrhau bod eich claf yn deall y termau yr ydych yn eu defnyddio, yn enwedig wrth ddisgrifio difrifoldeb, amllder a thebygolrwydd niwed posibl. Dylech ofyn am gwestiynau a thrafodaeth am y wybodaeth y byddwch yn ei rhannu.
- 29** Os na fydd claf yn dymuno cael gwybod am niweidiau posibl ffordd benodol o weithredu, neu os byddant yn gofyn i chi neu rywun arall wneud penderfyniad ar eu rhan, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 33-35.
- 30** Rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn eich maes gwaith, y gallent effeithio ar eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r risgiau niwed sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliadau neu'r triniaethau yr ydych yn eu darparu. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i gleifion yn gywir ac yn cynrychioli'r sefyllfa ddiweddaraf.

Ateb cwestiynau a delio ag ansicrwydd

- 31** Rhaid i chi ateb cwestiynau cleifion mewn ffordd onest a manwl, ac mor llawn ag sy'n ymarferol dan yr amgylchiadau. Os na fyddwch yn gallu ateb cwestiwn, dylech ystyried a oes modd i chi ddarganfod yr ateb trwy ymgynghori â rhywun arall neu adnodd arall, neu a oes ansicrwydd anorfod. Os ydych yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth, dylech wneud hynny, gan ateb cwestiwn y claf.
- 32** Pan na fydd y dystiolaeth am fanteision, risgiau a beichiau dewis penodol yn amlwg neu os ceir ansicrwydd ynghylch effaith glinigol ymyriad penodol ar glaf unigol, dylech esbonio hyn i'r claf.

Pan na fydd cleifion yn dymuno cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniad

- 33** Weithiau, efallai y bydd cleifion yn dymuno i rywun arall wneud penderfyniad ar eu rhan. Neu efallai y byddan nhw'n dymuno gwneud y penderfyniad, ond nid ydynt yn dymuno cael unrhyw wybodaeth am y dewisiadau.
- 34** Os bydd claf sy'n meddu ar alluedd yn gofyn i chi wneud penderfyniadau ar eu rhan neu os byddant yn dymuno gadael penderfyniadau i berthynas, partner, ffrind, gofalwr neu unigolyn arall sy'n agos iddynt, dylech geisio darganfod pam ac archwilio a oes modd i chi gymryd unrhyw gamau y gallent gynnig tawelwch meddwl a chymorth iddynt. Dylech esbonio pam ei bod yn bwysig eich bod chi a'r tîm gofal iechyd yn teimlo'n hyderus bod y claf wedi gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch sut i symud ymlaen.
- 35** Ar ôl cael trafodaeth, os bydd claf yn mynnu nad ydynt yn dymuno cael y wybodaeth sylfaenol hon hyd yn oed, rhaid i chi esbonio'r canlyniadau posibl os na fyddant yn ei chael. Gallai hyn gynnwys methu symud ymlaen os nad ydych yn hyderus y byddai eu caniatâd yn ddilys, neu os nad ydych yn hyderus y byddai'r ffordd o weithredu arfaethedig yn cynnig budd i'r claf yn gyffredinol. Rhaid i chi gofnodi'r ffaith bod y claf wedi gwrthod y wybodaeth hon. Yn ogystal, rhaid i chi nodi mewn ffordd glir y gallant newid eu meddwl a chael mwy o wybodaeth ar unrhyw adeg.

Cyfyngiadau o ran amser ac adnoddau

- 36** Oherwydd pwysau ar eich amser neu'r adnoddau cyfyngedig, gall fod yn anodd rhoi cymaint o wybodaeth neu gymorth i glaf i wneud penderfyniad ag y byddech chi neu nhw yn ei ddymuno. Er mwyn helpu, dylech ystyried y rôl y gallai aelodau eraill y tîm iechyd a gofal ei gyflawni, er enghraifft wrth gasglu a rhoi gwybodaeth ac ateb cwestiynau cyn neu ar ôl i chi gael cyswllt gyda'r claf. Yn ogystal, dylech ystyried pa ffynonellau eraill o ran gwybodaeth a chymorth sydd ar gael i'r claf (ac unrhyw deulu neu ofalwr sy'n cynorthwyo'r claf). Er enghraifft, taflenni gwybodaeth i gleifion, gwasanaethau eiriolaeth, rhaglenni cleifion arbenigol, neu grwpiau cymorth ar gyfer pobl sydd â chyflyrau penodol.
- 37** Dylech wneud eich gorau i sicrhau bod cleifion sydd ag anghenion ychwanegol, megis y rhai sydd ag anabledau, yn cael yr amser, y cymorth ac unrhyw addasiadau rhesymol y mae angen iddynt eu cael er mwyn gwneud penderfyniad. Ym mhob achos, rhaid i chi drin cleifion yn deg ac ni ddylech wahaniaethu yn eu herbyn.
- 38** Os bydd ffactorau y tu hwnt i'ch rheolaeth yn golygu nad ydych yn gallu rhoi'r amser neu'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chael i gleifion, ac mae hyn yn tanseilio eu gallu i wneud penderfyniad gwybodus yn ddifrifol, dylech fynegi eich pryderon i'ch cyflogwr neu'r sefydliad sy'n eich contractio. Gweler ein harweiniad ynghylch *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch* a'n hofferyn cymorth er mwyn gwneud penderfyniadau. Os nad ydych chi wedi cael caniatâd neu awdurdod dilys arall i gynnal ymyriad penodol, ni ddylech fwrw ymlaen ag ef.

Rhan 2:

Gwneud penderfyniad

Pan fo'ch claf yn gallu gwneud y penderfyniad ac yn rhoi eu caniatâd

- 39** Pan fydd gan glaf sy'n oedolyn alluedd, ac oni bai eu bod yn destun deddfwriaeth benodol sy'n cyfyngu ar eu gallu i wneud penderfyniadau (gweler paragraffau 104–107), mae ganddynt yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu gofal, trwy ymgynghori â phobl o'u dewis.
- 40** Rhaid i chi barchu penderfyniad eich claf i wrthod ffordd o weithredu benodol, hyd yn oed os byddwch yn anghytuno â hi neu os na fyddwch yn ei deall. Efallai y bydd yn rhesymol gofyn mwy o gwestiynau a chynnig mwy o gymorth i glaf, er enghraifft, pan fydd eu penderfyniad yn ymddangos yn groes i'w cymeriad neu'n anghyson â'u credoau a'u gwerthoedd, neu nid yw'n ymddangos eu bod yn deall y canlyniadau. Ond ni ddylech gymryd bod claf heb alluedd oherwydd eu bod yn gwneud penderfyniad yr ydych yn anghytuno ag ef neu nad ydych yn ei ddeall.
- 41** Os byddwch yn pryderu bod claf yn gwneud penderfyniad sy'n un annoeth iddynt yn eich barn chi, dylech esbonio'ch pryderon yn glir, gan amlinellu canlyniadau posibl eu penderfyniad. Ond ni ddylech ganiatáu i'ch dymuniadau neu'ch dewisiadau chi ddylanwadu ar y cyngor y byddwch yn ei roi ac ni ddylech roi pwysau ar glaf i dderbyn eich cyngor.
- 42** Os bydd claf yn gofyn am driniaeth neu ofal na fyddai'n cynnig budd iddynt yn eich barn chi, dylech archwilio rhesymau'r claf dros ofyn amdani. Wrth asesu unrhyw fudd tebygol, dylech ystyried ffactorau sy'n arwyddocaol i'r claf, gan gynnwys ffactorau anghlinigol megis safbwyntiau neu gredoau'r claf a'r effaith bosibl ar eu ffordd o fyw. Ar ôl cynnal trafodaeth bellach, os ydych o'r farn o hyd na fyddai'n cynnig budd cyffredinol, nid oes yn rhaid i chi ddarparu'r driniaeth neu'r gofal. Ond dylech esbonio'ch rhesymau i'r claf, gan esbonio unrhyw ddewisiadau eraill y gallent fod ar gael, gan gynnwys y dewis o geisio ail farn.
- 43** Ni ddylech fynd y tu hwnt i gwmpas yr awdurdod a roddwyd gan y claf, ac eithrio mewn argyfwng. Os bydd argyfwng yn codi, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 89 a 90.
- 44** Os ydych yn pryderu na all claf wneud penderfyniad rhydd gan eu bod dan ddylanwad amhriodol neu bwysau allanol, dylech ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 60-64.

Mynegi caniatâd

- 45** Ar ôl i glaf wneud eu penderfyniad, efallai y byddant yn mynegi eu caniatâd i chi am ffordd benodol o weithredu.
- 46** Cyn derbyn caniatâd claf, rhaid i chi ystyried a ydynt wedi cael y wybodaeth yr oeddent yn dymuno'i chael neu y mae angen iddynt ei chael, mewn ffordd y gallant ei deall. Ac mae'n rhaid i chi ystyried pa mor dda y maent yn deall manylion a goblygiadau'r hyn a gynigir. Mae hyn yn bwysicach na'r ffordd y caiff eu caniatâd ei fynegi neu ei gofnodi.
- 47** Gall cleifion fynegi eu caniatâd mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gallai hyn fod yn benodol, trwy gyfrwng iaith ysgrifenedig, iaith a siaredir neu iaith arwyddion. Neu

fe allai gael ei fynegi trwy gyfrwng dull cyfathrebu heb fod ar lafar, megis agor eu ceg er mwyn caniatáu i chi archwilio'u gwddf neu blygu eu pen er mwyn i chi allu archwilio eu clust.

48 Dylech fabwysiadu dull cymesur tuag at y ffordd y gellir mynegi caniatâd. Dylech ystyried natur yr ymyriad a'i natur frys, lefel y risg a chymhlethdod y penderfyniad, yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r claf unigol, megis lefel eu dealltwriaeth neu eu dewisiadau cyfathrebu.

49 Yn aml, pwysleisir caniatâd ysgrifenedig a bydd gofyn ei sicrhau yn unol â'r gyfraith weithiau. Ond sut bynnag y bydd y claf yn mynegi eu caniatâd, rhaid i chi sicrhau eu bod wedi cael yr holl wybodaeth berthnasol mewn ffordd y maent yn ei deall a'u bod wedi cael amser priodol i wneud penderfyniad.

50 Yn ôl y gyfraith, rhaid i chi gael caniatâd ysgrifenedig ar gyfer triniaethau penodol, megis triniaeth ffrwythlondeb. Rhaid i chi ddilyn y cyfreithiau a'r codau ymarfer sy'n llywodraethu'r sefyllfaoedd hyn.

Cofnodi trafodaethau

51 Rhaid i chi gofnodi elfennau allweddol unrhyw drafodaethau yr ydych chi wedi'u cael am ddewisiadau, niweidiau a manteision gyda'r claf, y rhai sy'n agos iddynt, unrhyw un sydd â rôl cyfreithiol yn y broses ac aelodau eraill y tîm gofal iechyd.

52 Dylech fabwysiadu dull gweithredu cymesur ar gyfer lefel y manylder y byddwch yn ei chofnodi. Ond fel arfer, dylech gynnwys y canlynol:

- crynodeb o'r wybodaeth a drafodoch
- unrhyw bryderon neu geisiadau penodol a fynegwyd yn ystod trafodaethau

- unrhyw wybodaeth ysgrifenedig, gweledol neu sain a roddwyd i'r claf, y rhai sy'n agos iddynt neu'r rhai sydd â rôl cyfreithiol yn y broses
- manylion unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd.

Cynllunio gofal yn y dyfodol

53 Efallai y bydd sefyllfaoedd pan fydd hi o gymorth ystyried dewisiadau gofal ymlaen llaw. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i gleifion ystyried y dewisiadau cyn y bydd angen iddynt wneud penderfyniad neu weithredu. Er enghraifft, ym maes gofal mamolaeth, bydd cleifion yn aml yn paratoi cynlluniau geni ymlaen llaw; ym maes gofal seiciatrig, gall cleifion sydd ag anhwylder deubegynol baratoi cynlluniau ynghylch eu gofal os byddant yn cael episodau mania yn y dyfodol; ac efallai y bydd cleifion sy'n mynd i adrannau brys yn aml, yn ei gweld o gymorth trafod yr hyn yr hoffent iddo ddigwydd pe baent yn mynychu eto.

54 Dylech ystyried y cam o gynllunio gofal ymlaen llaw:

- pan allai'r claf ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau yn nes ymlaen, naill ai oherwydd bod colli galluedd neu amhariad ar eu galluedd neu eu dirnadaeth yn bosiblwydd y gellir ei ragweld, neu am resymau eraill
- pan nad oes angen gweithredu ar unwaith, ond pan fydd angen gwneud penderfyniadau'n gyflym yn nes ymlaen efallai
- pan fo gan y claf gyflwr a fydd yn effeithio ar hyd neu ansawdd eu bywyd.⁶

⁶ Os ydych yn rhoi triniaeth neu ofal i glaf sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad yn *Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: gwneud penderfyniadau*

55 Wrth wneud cynlluniau ymlaen llaw ar gyfer triniaeth a gofal, dylech annog eich claf i ystyried yr hyn y byddant yn ei ddymuno os bydd gwahanol ganlyniadau neu ddatblygiadau yn digwydd, gan drafod eu dymuniadau a'u pryderon gyda chi a'r tîm gofal iechyd.

56 Gallai trafodaethau o'r fath gynnwys:

- a** dymuniadau, dewisiadau neu ofnau'r claf mewn perthynas â'u gofal yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw driniaethau, ymchwiliadau neu archwiliadau y byddent yn dymuno'u gwrthod, ac ym mha amgylchiadau
- b** unrhyw ymyriadau y gallent fod yn angenrheidiol mewn argyfwng, megis eu cludo i'r ysbyty neu eu trosglwyddo i uned arall, toriad cesaraidd brys neu driniaeth am haint aciwt
- c** y teimladau, y credoau neu'r gwerthoedd y gallent fod yn dylanwadu ar ddewisiadau a phenderfyniadau'r claf
- d** a fyddai'r claf yn dymuno bod unrhyw berthnasau, ffrindiau, gofalwyr neu gynrychiolwyr yn ymwneud â phenderfyniadau am eu gofal.

57 Efallai y bydd claf yn dymuno enwebu rhywun i wneud penderfyniadau ar eu rhan os byddant yn colli galluedd, neu wrthod triniaeth benodol ymlaen llaw. Yn yr achosion hyn, dylech esbonio y gallai fod ffyrdd o ffurfioli eu dymuniadau, gan esbonio sut y gallant geisio cymorth neu gael cyngor annibynnol am hyn.

58 Rhaid i chi gofnodi'r drafodaeth ac unrhyw safbwyntiau neu benderfyniadau a fynegir gan y claf. Dylech sicrhau bod cofnod o'r cynllun gofal ymlaen llaw ar gael i'r claf ac i eraill sy'n ymwneud â'u gofal, fel bod pawb yn glir am yr hyn a gytunwyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r claf wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth.⁷ Dylech gofio bod angen adolygu a diweddarau cynlluniau gofal wrth i'r sefyllfa newid neu wrth i safbwyntiau'r claf newid.

59 Dylech gofnodi unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd, pryd bynnag y bo modd tra bod gan y claf alluedd i'w deall a'u hadolygu. Rhaid i chi gofio y gallai fod angen cofnodi, llofnodi a thystio i unrhyw ddymuniadau i wrthod triniaeth ymlaen llaw.

60 Os ydych yn rhoi triniaeth neu ofal i glaf sy'n agosáu at ddiwedd eu bywyd, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad yn Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: gwneud penderfyniadau.⁸

Os ydych yn pryderu nad yw claf yn gallu gwneud penderfyniad o'u gwirfodd efallai

61 Ceir nifer o ffactorau y gall claf eu hystyried pan fyddant yn gwneud penderfyniad. Ond mae'n bwysig nad oes unrhyw rai o'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar glaf i'r fath raddau fel na fyddant yn gallu gwneud rhywbeth o'u gwirfodd mwyach. Os na fydd claf yn gallu gwneud eu penderfyniad o'u gwirfodd, ni fydd eu caniatâd i ffordd o weithredu benodol yn ddilys.

62 Efallai y bydd cleifion dan bwysau gan eraill i dderbyn ymyriad penodol. Gallai'r pwysau hwn ddod o unigolion, megis partneriaid, perthnasau neu ofalwyr; sefydliadau, megis cyflogwyr neu yswirwyr; neu systemau ar raddfa fawr, megis y system cyfiawnder troseddol neu fudd-daliadau.

⁷ Gweler yr atodiad cyfreithiol am ragor o wybodaeth am wrthod ymlaen llaw. [Caiff yr atodiad cyfreithiol ei ddrafftio ar ôl cynnal yr ymgynghoriad. Gweler Deddf Galluedd Meddyliol 2005, ss 24–26 am wybodaeth ynghylch penderfyniadau ymlaen llaw yng Nghymru a Lloegr. Yn yr Alban, nid yw'r llysoedd wedi profi penderfyniadau ymlaen llaw eto, ond mae'n debygol y byddent yn cael eu trin fel rhywbeth sy'n rhwymo mewn cyfraith pe byddent yn berthnasol i'r amgylchiadau mewn ffordd uniongyrchol. Yng Ngogledd Iwerddon, cânt eu llywodraethu gan gyfraith gyffredin, er pan fydd yn dod i rym, bydd Mental Capacity Act (Northern Ireland) 2016 yn rhoi sylfaen statudol iddynt.]

⁸ www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors/treatment-and-care-towards-the-end-of-life

- 63** Dylech fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwn ac o sefyllfaoedd eraill y gallai cleifion fod yn arbennig o agored i niwed ynddynt, neu'n agored i gael eu rhoi dan bwysau. Gallai sefyllfaoedd o'r fath gynnwys, er enghraifft, os ydynt: yn dioddef cam-drin domestig neu fathau eraill o gam-drin, os ydynt yn breswlydd mewn cartref gofal, yn cael gofal neu gymorth gan eraill oherwydd anabledd, yn cael eu cadw gan yr heddlu neu wasanaethau mewnffudo, neu yn y carchar. Yn ogystal, gallai cleifion sy'n destun triniaeth neu asesu gorfodol dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl, neu y maent mewn perygl o fod yn destun hynny, fod o dan bwysau i gytuno i ffordd benodol o weithredu y tu allan i unrhyw driniaeth neu ymchwiliad y gallai fod cymhelliant cyfreithiol arnynt i'w ddilyn
- 64** Mewn rhai achosion, gallai'r pwysau allanol ar gleifion i gytuno ar lwybr gweithredu penodol fod yn sylweddol. Dylech wneud eich gorau i sicrhau bod cleifion wedi ystyried y dewisiadau sydd ar gael a chanlyniadau posibl y rhain, a'u bod wedi gwneud eu penderfyniad eu hunain. Dylech ddilyn y camau ym mharagraff 23 ac unrhyw gamau eraill y gallent eu helpu i wneud penderfyniad yn eich barn chi. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, rhoi mwy o amser a lle iddynt, man tawel i ystyried y dewisiadau, sicrhau eich bod yn cael cyfle i siarad â nhw ar eu pen eu hunain, neu eu cyfeirio at wasanaethau cymorth arbenigol addas. Rhaid i chi sicrhau bod eich claf yn ymwybodol o'r ffaith y gallant wrthod symud ymlaen os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Ni fydd angen i chi fwrw ymlaen gydag ymyriad os nad ydych o'r farn y bydd hwn o fudd i'r claf.

- 65** Ar ôl gwneud hyn, os byddwch o'r farn bod claf dan bwysau mor eithafol i gytuno i neu wrthod ymyriad penodol fel nad ydynt yn gallu gweithredu o'u gwirfodd mwyach, neu y gallai eu galluedd i wneud penderfyniad fod yn cael ei amharu,⁹ dylech gael cyngor cyfreithiol. Mae paragraffau 76–101 yn cynnig cyngor am yr hyn i'w wneud os na fydd gan eich claf alluedd i wneud penderfyniad efallai

Pan na fydd gan eich claf alluedd i wneud y penderfyniad efallai

- 66** Galluedd meddyliol yw'r gallu i wneud penderfyniad. Er mwyn gwneud hyn, rhaid bod cleifion yn gallu cyflawni'r holl bethau canlynol:
- a** deall unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw
 - b** cofio'r wybodaeth honno
 - c** defnyddio neu bwysu a mesur y wybodaeth honno er mwyn gwneud eu penderfyniad¹⁰
 - d** cyfathrebu'r penderfyniad hwn.
- 67** Os na fydd claf yn meddu ar y galluedd i wneud y penderfyniad dan sylw, ni allant roi eu caniatâd i'r ymyriad arfaethedig yn ôl y gyfraith.
- 68** Bydd adegau'n codi pan fyddwch o'r farn nad oes gan eich claf y galluedd i wneud penderfyniad. Cofiwch bod hwn yn faes cymhleth ac er bod deddfwriaeth a bod codau ymarfer statudol i'ch helpu, mae pennu galluedd yn fater o farn. Gallwch weld dolenni yn y codau ymarfer yn adran *Ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad eraill*¹¹ ar ddiwedd y ddogfen hon.

⁹ Pan na fydd gan oedolion alluedd oherwydd ofn, gorfodaeth neu ddylanwad amhriodol, yng Nghymru a Lloegr, gall yr Uchel Lys awdurdodi gweithredoedd a fwriadwyd i'w diogelu ac i wella'u lles. Gweler yr adran ynghylch cyfraith achosion yn yr atodiad cyfreithiol. [Caiff yr atodiad cyfreithiol ei ddrafftio ar ôl yr ymgynghoriad. Gweler DL vs Awdurdod Lleol ac Eraill [2012] EWCA Civ 253]

¹⁰ Mae Mental Capacity Act (Northern Ireland) 2016, nad yw mewn grym eto, yn cynnwys gofyniad ychwanegol: rhaid i'r claf werthfawrogi pa mor berthnasol yw'r wybodaeth i'r penderfyniad dan sylw ac mae'n rhaid iddynt ddefnyddio a phwyso a mesur y wybodaeth honno er mwyn gwneud penderfyniad. Pan fydd y deddfwriaeth hon yn dod i rym, bydd angen i feddygon sy'n gwneud gwaith meddygol yng Ngogledd Iwerddon ystyried hyn.

¹¹ Byddwn yn diweddarau hwn yn ystod yr adolygiad ac yn ei gyhoeddi gyda'r arweiniad terfynol.

69 Mae'r arweiniad sy'n dilyn yn cyd-fynd â'r gyfraith ar draws y DU. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r cyfreithiau a'r codau ymarfer diweddaraf sy'n berthnasol yn y man lle'r ydych yn gweithio, a chydymffurfio â nhw. Ceir rhywfaint o wybodaeth am y gyfraith ynghylch galluedd yn yr atodiad cyfreithiol. Os nad ydych yn siŵr sut y mae'r gyfraith yn berthnasol mewn sefyllfa benodol, dylech ymgynghori â'ch corff amddiffyn neu'ch cymdeithas broffesiynol, cael cyngor trwy weithdrefnau lleol neu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Rhagdybio galluedd

70 Rhaid i chi ddechrau gyda'r rhagdybiaeth bod pob claf sy'n oedolyn yn meddu ar y galluedd i wneud penderfyniadau am eu gofal, gan benderfynu a ddylid cytuno i archwiliad, ymchwiliad, triniaeth neu ymyriadau eraill, neu eu gwrthod. Dim ond ar ôl y bydd hi'n amlwg, ar ôl cael yr holl help a'r cymorth priodol (fel yr amlinellwyd yn rhan 1), nad yw claf yn gallu gwneud popeth a restrir ym mharagraff 76, y dylech eu hystyried fel claf heb alluedd.

71 Ni ddylech gymryd bod claf heb alluedd i wneud penderfyniad ar sail y canlynol yn unig - eu hoedran, eu hanabledd, eu hymddangosiad, eu hymddygiad, eu cyflwr meddygol (gan gynnwys salwch meddwl), eu safbwyntiau, eu credoau neu eu hanawsterau ymddangosiadol wrth gyfathrebu, neu oherwydd eu bod yn gwneud penderfyniad yr ydych yn anghytuno ag ef neu nad ydych yn ei ddeall.

Asesu galluedd

72 Wrth wneud penderfyniad gyda chlaf, eich cyfrifoldeb chi yw asesu a yw claf yn meddu ar y galluedd i wneud y penderfyniad dan sylw.

73 Mewn rhai achosion, efallai y bydd hi'n amlwg nad oes gan y claf alluedd ac efallai

na fydd hi'n ymarferol bosibl cymryd unrhyw gamau i gynyddu eu galluedd gymaint ag y bo modd. Er enghraifft, os bydd claf yn anymwybodol ac mae'n rhaid cychwyn ar driniaeth yn gyflym. Mewn achosion eraill, efallai y byddwch chi'n gallu cymryd camau sylweddol er mwyn helpu i gynorthwyo cyswllt eich claf gyda'r broses o wneud penderfyniadau, gan ddilyn y camau yn Rhan 1. Bydd eich trafodaethau gyda'ch claf trwy gydol y cyfnod yn helpu i gyfrannu at eich asesiad o'u galluedd. Ond ni ddylech ffurfio barn derfynol ynghylch eu galluedd i wneud penderfyniad penodol nes y bydd angen gwneud y penderfyniad, a dim ond ar ôl i'r claf gael yr holl help a chymorth priodol.

74 Mae galluedd yn gysylltiedig â phenderfyniad penodol ac mae'n gallu amrywio. Gan nad yw claf yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniad ar achlysur penodol, ni ddylech dybio eu bod heb alluedd i wneud unrhyw benderfyniadau o gwbl, neu na fyddant yn gallu gwneud penderfyniadau tebyg yn y dyfodol.

75 Rhaid i chi ystyried y cyngor ynghylch asesu galluedd mewn unrhyw arweiniad statudol neu arweiniad perthnasol arall sy'n berthnasol. Gallwch weld dolenni i'r codau ymarfer yn adran Ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad eraill ar ddiwedd y ddogfen hon.

76 Ar ôl cynnal eich asesiad, os byddwch yn parhau i fod yn amau galluedd y claf i wneud y penderfyniad, dylech¹² geisio cyngor (pellach) gan:

- a** staff nyrsio neu eraill sy'n ymwneud â gofal y claf, neu'r rhai sy'n agos i'r claf, y gallent fod yn ymwybodol o allu arferol y claf i wneud penderfyniadau a'u cyfathrebu

¹² Os ydych yn gweithio yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i chi geisio'r cyngor pellach hwn.

- b** cydweithwyr sy'n meddu ar brofiad arbenigol perthnasol, megis seiciatryddion, niwrolegwyr, therapyddion iaith a lleferydd neu nyrsys cyswllt.

77 Os ydych yn teimlo'n ansicr o hyd ynghylch galluedd y claf i wneud penderfyniad, rhaid i chi ddilyn unrhyw weithdrefnau lleol neu statudol perthnasol er mwyn datrys hyn. Os na fydd hyn yn llwyddiannus, rhaid i chi gael cyngor cyfreithiol, gyda'r nod o ofyn i lys barn bennu galluedd.

78 Pan na fydd claf yn gallu gwneud penderfyniad drostynt eu hunain oherwydd eu bod heb alluedd, rhaid gwneud penderfyniad ynghylch pa ddewisiadau y gallent gynnig budd cyffredinol i'r claf a pha ddewis fyddai'n cyfyngu leiaf ar ddewisiadau'r claf yn y dyfodol.

Asesu budd cyffredinol gwahanol ddewisiadau

79 Pan na fydd claf yn gallu gwneud penderfyniad drostynt eu hunain oherwydd eu bod heb alluedd, rhaid i chi nodi pa ddewisiadau y gallent gynnig budd cyffredinol i'r claf, gan benderfynu rhyngddynt, a chan ystyried pa mor agos y maent yn cyd-fynd â dymuniadau a gwerthoedd y claf, ac i ba raddau y gallent fod yn cyfyngu ar hawliau a rhyddid y claf, gan gynnwys eu dewisiadau yn y dyfodol.

80 Os ydych yn gyfrifol am wneud y penderfyniad ynghylch budd cyffredinol, mae'n debygol bod gan y rhai sy'n agos i'r claf ac aelodau'r timau iechyd a gofal wybodaeth am ddymuniadau, gwerthoedd a dewisiadau'r claf, ynghyd ag unrhyw ffactorau personol eraill y dylech eu hystyried. Yn ogystal, efallai y gallwch weld gwybodaeth am ddymuniadau'r claf yn eu nodiadau, eu cynllun gofal ymlaen llaw neu gofnod arall, megis cais ymlaen llaw am driniaeth neu benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth.

81 Er mwyn ffurfio barn am fudd cyffredinol dewis penodol, rhaid i chi bwysu a mesur ei fanteision yn erbyn y beichiau a'r risgiau niwed i'r claf penodol hwnnw.

82 Nid yw'r manteision, y beichiau a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymyriad wedi cael eu cyfyngu i ystyriaethau clinigol. Dylech fod yn ofalus wrth ystyried y ffactorau eraill sy'n berthnasol i amgylchiadau pob claf, gan ystyried y canlyniadau tebygol yn y tymor byr a'r tymor hwy.

83 Os bydd gan glaf heb alluedd ddirprwy cyfreithiol sy'n meddu ar awdurdod i wneud penderfyniadau ar eu rhan, bydd eu dirprwy cyfreithiol yn ffurfio'r barnau hyn ar ôl cael cyngor gennych chi ac eraill sy'n ymwneud â gofal y claf. Mae'r atodiad cyfreithiol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ddirprwyon cyfreithiol.

84 Wrth wneud penderfyniadau am y driniaeth a'r gofal ar gyfer claf heb alluedd, rhaid i chi:

- a** sicrhau eich bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eich claf
- b** trin eich claf fel unigolyn a pharchu eu hurddas
- c** cynorthwyo ac annog eich claf i ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal i'r graddau y maent yn yn dymuno gwneud hynny ac yn gallu gwneud hynny
- d** trin eich claf gyda pharch a pheidio gwahaniaethu yn eu herbyn.

85 Yn ogystal, rhaid i chi ystyried:

- a** a yw diffyg galluedd y claf yn debygol o fod dros dro neu'n barhaol
- b** pa ddewisiadau o ran triniaeth fyddai'n cynnig budd clinigol cyffredinol i'r claf
- c** pa ddewis, gan gynnwys y dewis o beidio trin, fyddai'n cyfyngu leiaf ar ddewisiadau'r claf yn y dyfodol

- d** difrifoldeb unrhyw ymyriad arfaethedig, ac unrhyw ganlyniadau difrifol y gallent ddeillio ohono
- e** unrhyw dystiolaeth am ddewisiadau'r claf, a fynegwyd ar adeg pan oeddent yn meddu ar alluedd i wneud y penderfyniad dan sylw, megis penderfyniad neu ddatganiad ymlaen llaw
- f** safbwyntiau unrhyw un y mae'r claf yn gofyn i chi ymgynghori â nhw, neu y maent yn meddu ar yr awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniad ar eu rhan, neu y cawsant eu penodi i'w cynrychioli
- g** unrhyw angen i benodi cynrychiolydd neu eiriolwr
- h** safbwyntiau pobl sy'n agos i'r claf, megis aelodau teuluol, ffrindiau a gofalwyr, ynghylch dewisiadau, teimpladau, credoau a gwerthoedd y claf, ac a ydynt o'r farn bod y driniaeth arfaethedig er budd pennaf y claf
- i** dewisiadau'r claf nawr, os ydynt yn gallu eu mynegi
- j** unrhyw beth arall yr ydych chi ac eraill yn y timau iechyd a gofal yn ei wybod am ddymuniadau, teimpladau, credoau a gwerthoedd y claf ac unrhyw ffactorau eraill y byddai'r claf yn debygol o'u hystyried pe baent yn gallu gwneud hynny.

Datrys anghytundebau

- 86** Dylech geisio dod i gonsensws ynghylch triniaeth a gofal claf, gan neilltuo digon o amser i gael trafodaethau gyda'r rhai sydd â diddordeb yn lles y claf.
- 87** Weithiau, gall anghytundebau godi rhwng aelodau'r tîm gofal iechyd, y rhai sy'n agos i'r claf a'r claf eu hunain. Gallai'r anghytundebau hyn fod ynghylch a yw'r claf yn meddu ar alluedd. Neu, efallai bod cytundeb bod y claf heb alluedd, ond anghytundeb am yr hyn i'w wneud.

88 Mae'n well datrys anghytundebau trwy gyfrwng prosesau lleol, ac mae modd gwneud hynny fel arfer. Er enghraifft, trwy gynnwys eiriolwr annibynnol neu wasanaeth cyfryngu lleol, ymgynghori â chydweithiwr mwy profiadol, cynnal cynhadledd achos neu gael cyngor gan y pwyllgor moeseg clinigol. Rhaid i chi ddilyn unrhyw gamau ffurfiol i ddatrys anghytundeb, sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu a nodir mewn cod ymarfer perthnasol. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r gwahanol bobl y mae'n rhaid i chi ymgynghori â nhw, eu gwahanol rolau wrth wneud penderfyniadau a'r pwys y mae'n rhaid i chi ei roi i'w safbwyntiau. Mae'r atodiad cyfreithiol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hyn.

89 Ar ôl cymryd y camau hyn, os bydd anghytundeb sylweddol o hyd, dylech geisio cyngor cyfreithiol ynghylch gwneud cais i'r corff statudol neu'r llys priodol am adolygiad neu ddyfarniad annibynnol. Dylid hysbysu eich claf, unrhyw un a benodwyd i weithredu ar eu rhan, a'r rhai sy'n agos i'r claf, o unrhyw benderfyniad i gychwyn camau cyfreithiol mor gynnar ag y bo modd, er mwyn iddynt gael y cyfle i gyfranogi neu gael eu cynrychioli.

Cwmpas triniaeth mewn argyfyngau

90 Mae'r dybiaeth ynghylch galluedd yn berthnasol mewn argyfyngau hyd yn oed. Ond efallai y byddwch yn darganfod bod y camau y gallwch eu cymryd er mwyn manteisio gymaint ag y bo modd ar alluedd claf mewn argyfwng yn fwy cyfyngedig nag y maent ar adegau eraill. Ac mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn amlwg yn syth nad yw'r claf yn meddu ar alluedd (gweler paragraff 72). Os na fydd claf yn meddu ar alluedd, dylid darparu eu triniaeth mewn argyfwng yn unol â'r hyn sy'n cynnig budd cyffredinol iddynt.

91 Rhaid i'r driniaeth y byddwch yn ei darparu gyfateb â'r un a fydd yn cyfyngu leiaf ar hawliau a rhyddid y claf, gan gynnwys eu dewisiadau yn y dyfodol. Am hyd y cyfnod y bydd y claf heb alluedd, dylech ddarparu gofal parhaus ar sail yr arweiniad ym mharagraffau 80-100. Os bydd y claf yn adennill galluedd tra byddant yn eich gofal, rhaid i chi ddweud wrthynt yr hyn a wnaethpwyd, a pham, cyn gynted ag y byddant wedi adfer digon i ddeall. Ac mae'n rhaid i chi drafod y dewisiadau ynghylch unrhyw driniaeth barhaus gyda nhw.

Pan fydd gennych chi awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniad er mwyn diogelu'r claf neu bobl arall

92 Mewn rhai amgylchiadau, a nodir yn y gyfraith, efallai y bydd angen ffrwyno neu gyfyngu ar symudiadau claf neu gyflawni ymyriad heb sicrhau caniatâd y claf er mwyn eu diogelu nhw neu'r cyhoedd rhag niwed, hyd yn oed pan fo'r claf yn bodloni'r prawf galluedd cyfreithiol i wneud y penderfyniad, neu er mwyn gallu darparu triniaeth i'r claf mewn man penodol.¹³

93 Mae gofyn bod yr amgylchiadau lle y gallwch ffrwyno neu gyfyngu ar symudiad claf sy'n oedolyn a darparu triniaeth heb sicrhau eu caniatâd, yn destun rhagofalon llym, oherwydd bod gweithredoedd o'r fath yn amharu ar hawl unigolyn i wneud penderfyniadau am eu hiechyd a'u gofal eu hunain.

94 Os byddwch o'r farn bod angen defnyddio'r pwerau cyfreithiol hyn er mwyn trin neu asesu claf heb sicrhau eu caniatâd, rhaid i chi ddilyn y gweithdrefnau a nodir yn y canllawiau statudol a'r gyfraith berthnasol sydd mewn grym yn y wlad yr ydych chi'n gweithio ynddi. Mae'r atodiad cyfreithiol yn cynnig rhywfaint o wybodaeth am y gyfraith yn y maes hwn. Os nad ydych yn siŵr sut y mae hyn yn berthnasol, dylech gael cyngor gan eich corff amddiffyn, eich sefydliad proffesiynol, neu gan gynghorydd cyfreithiol annibynnol.

95 Pan gaiff claf eu hasesu neu eu trin mewn amgylchiadau fel hyn, mae'n bwysig cofio y dylech chi gynorthwyo ac annog eu cyswllt gyda phenderfyniadau am eu gofal o hyd. Er enghraifft, efallai na fydd claf yn gallu dewis cael triniaeth neu beidio, ond efallai y byddwch yn gallu ystyried y ffaith eu bod yn ffafrio triniaeth benodol neu ddull darparu penodol wrth benderfynu sut i reoli eu gofal.

Cofnodi penderfyniadau

96 Rhaid i chi gofnodi unrhyw benderfyniadau a wneir a'r rhesymau drostynt. Pan fydd y claf yn meddu ar alluedd ac maent wedi rhoi eu caniatâd, efallai y bydd hi'n briodol cofnodi'r trafodaethau a'u penderfyniadau ar ffurflen caniatâd ar wahân, os defnyddir y rhain yn eich sefydliad.

97 Yn ogystal, rhaid i chi gofnodi unrhyw drafodaethau yr ydych chi wedi'u cael ac y maent wedi cyfrannu at y penderfyniad, gan ddilyn y cyngor ym mharagraffau 62 a 63. Dylai hyn gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol am yr amgylchiadau y gwnaethpwyd y penderfyniad ynddynt, pan y gallai hyn fod o gymorth i benderfyniadau dilynol a wneir am ofal y claf.

¹³ Gweler yr atodiad cyfreithiol am wybodaeth bellach. [Caiff yr atodiad cyfreithiol ei ddrafftio ar ôl yr ymgynghoriad. Gweler Deddf Iechyd Meddwl 1983, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007; Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Swydd Nottingham v RC [2014] EW COP 1317; Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984; Public Health etc. (Scotland) Act 2008; Public Health Act (Northern Ireland) 1967]

Adolygu penderfyniadau

- 98** Cyn cychwyn unrhyw ymyriad, dylech chi neu aelod o'r tîm gofal iechyd gadarnhau ei bod yn briodol gwneud hynny o hyd. Rhaid i chi ymateb i unrhyw bryderon newydd neu bryderon a godir eto neu gwestiynau a ofynnir gan y claf neu eraill sy'n ymwneud â'r penderfyniad.
- 99** Gall cleifion newid eu meddwl ar unrhyw adeg, ac os bydd gan y claf alluedd i roi eu caniatâd i'r ymyriad, dylech gadarnhau eu bod yn dymuno bwrw ymlaen ag ef o hyd cyn i chi symud ymlaen. Os bydd y claf heb y galluedd hwn, ond ceir unigolyn sy'n meddu ar awdurdod cyfreithiol ffurfiol i wneud penderfyniad ar eu rhan, dylech gadarnhau gyda'r unigolyn hwnnw eu bod yn fodlon bwrw ymlaen ag ef o hyd.
- 100** Mae'n arbennig o bwysig gwneud hyn:
- a** os nad ydych chi wedi cael trafodaeth gyda'r claf yn bersonol, er enghraifft oherwydd bod cydweithiwr wedi gweld y claf yn y lle cyntaf
 - b** os bydd amser sylweddol wedi mynd heibio ers y gwnaethpwyd y penderfyniad cychwynnol
 - c** os bu newidiadau yng nghyflwr y claf neu mewn unrhyw agwedd ar yr ymchwiliad neu'r driniaeth arfaethedig
 - d** os oes gwybodaeth newydd ar gael, er enghraifft ynghylch risgiau triniaeth neu ynghylch triniaethau eraill
 - e** os oes gennych chi unrhyw reswm dros gredu bod y claf wedi newid eu meddwl neu os yw'n ymddangos eu bod yn anfodlon bwrw ymlaen ag ef
 - f** os oes gennych chi unrhyw reswm dros gredu y gallai gallu'r claf i wneud penderfyniad o'u gwirfodd fod wedi cael ei gyfyngu. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 70–74.
- 101** Rhaid i chi sicrhau bod cleifion ac eraill sy'n ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau yn cael gwybod am gynnydd eu triniaeth neu eu gofal, a'u bod yn gallu gwneud penderfyniadau yn ystod pob cam – nid yn ystod y cam cychwynnol yn unig. Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau pan wneir penderfyniad cychwynnol i beidio cymryd unrhyw gamau.
- 102** Os yw'r driniaeth yn parhau, dylech sicrhau bod trefniadau clir mewn grym i adolygu penderfyniadau ac i wneud rhai newydd yn ôl yr angen.

E-bost: gmc@gmc-uk.org
Gwefan: www.gmc-uk.org
Ffôn: **0161 923 6602**

Tîm Caniatâd CMC, Cyngor Meddygol Cyffredinol, Regent's Place, 350 Euston Road, London NW1 3JN.

Ffôn testun: **dylech ddeialu 18001** yna **0161 923 6602**
er mwyn defnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun

Ymunwch â'r sgwrs



[@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)



facebook.com/gmcuk



linkd.in/gmcuk



youtube.com/gmcuktv

I ofyn am fersiwn Saesneg o'r cyhoeddiad hwn, neu fersiwn mewn ffurf neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu anfonwch e-bost atom, [**publications@gmc-uk.org**](mailto:publications@gmc-uk.org).

Published November 2018

© 2018 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae modd atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

GMC/CC18_W/1118

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol